# Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr

## Croeso i'r Dosbarth Meithrin



## 'Cyd Dynnu Gwir Lwyddiant'

Prifathro: Mr D.Davies

Dirprwy : Mrs A. Mathias

Staff y Meithrin:
Mrs R Jones (Fflic)
Mrs E Llewellyn (Fflac)

Arweinydd y Cyfnod Sylfaen: Mrs L Prosser

Ysgrifenyddesau:
Mrs H Adams
Mrs P Davies




Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr
Laburnum Drive
Cwmdâr
Aberdâr
CF44 8RT

**Rhif ffon:** 01685-872939

**Cyfeiriad E-Bost:**
admin@yggaberdar.rctcbc.cymru

Gwefan yr ysgol:
www.yggaberdar.cymru

Trydar: @ygg_aberdar



## Dechrau Ysgol

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi i sicrhau addysg hapus a llwyddiannus i'ch plentyn. Mae eich plentyn ar fin dechrau cyfnod newydd gyffrous a'n nod yw gwneud hwn yn brofiad hapus i chi gyd! Er mwyn eu cefnogi  pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, rydym yn sicrhau bod y grŵp yn llai o faint fel y gall staff roi digon o sylw iddynt a'u helpu i setlo.

Rydym yn gwerthfawrogi y gall fod yn anodd i chi fel rhieni adael eich plentyn os ydynt yn cynhyrfu, ond mae plant yn setlo'n llawer cyflymach ar ôl i chi adael, ac mae angen amser arnynt hefyd i addasu i hyn. Os na fydd eich plentyn yn ymgartrefu, bydd yr ysgol yn cysylltu â chi, mae'r staff yn gwneud popeth o fewn eu gallu i helpu'r plant.

Bydd dechrau ysgol yn fwy llwyddiannus ac yn hapusach pan fydd eich plentyn yn gallu:

- Defnyddio’r tŷ bach yn annibynnol datod dillad, sychu, fflysio ac yna golchi dwylo. Anfonwch ddillad sbâr gyda'ch plentyn yn ddyddiol rhag ofn y bydd damweiniau. Os bydd eich plentyn yn cael 'damweiniau' yn rheolaidd, ein polisi ni yw eich bod yn dod i'r ysgol i'w newid oni bai bod gan y plentyn gynllun meddygol wedi'i drafod gyda staff.

- Bwyta yn annibynnol gan ddefnyddio cyllell, fforc a chwpan gan eistedd wrth y bwrdd yn gywir.

- Gwisgo'i hunain er enghraifft gwisgo cot ac esgidiau. Rydyn ni'n caru Felcro! Cymryd cyfrifoldeb am eu heiddo gan gadw nhw'n ddiogel ar eu bachyn cot.

- Dechrau adnabod eu henwau fel y gallant ddod o hyd i'w cot, llyfr, bachyn cot, hunan-gofrestru.

- Tacluso a chymryd cyfrifoldeb am deganau ac offer (disgwylir iddynt wneud hyn yn yr ysgol).

- Bod yn gwrtais, cyfeillgar a chymdeithasol ar ôl cael llawer o gyfleoedd i gymdeithasu e.e. wedi bod i grŵp chwarae/ Cylch Meithrin. Bydd hyn yn eu helpu i ymgartrefu yn well a gwneud ffrindiau yn yr ysgol.

- Deall beth i ddisgwyl yn yr ysgol – siaradwch â'ch plentyn am yr ysgol ac am unrhyw beth a allai fod yn eu poeni cyn iddynt ddechrau.

- Datblygu diddordeb yn yr iaith Gymraeg - anogwch nhw i wylio fideos/rhaglenni Cymraeg , gwrando ar hwiangerddi / caneuon a straeon Cymraeg.

**Bydd y canlynol o help cyn dechrau'r ysgol:**

- Darllen storiâu er mwyn ennyn diddordeb mewn llyfrau.
- Cynnig cyfleoedd iddynt wneud marciau e.e. gyda chreonau mawr, pensiliau, sialc.
- Dysgwch hwiangerddi poblogaidd, rhigymau a phenillion syml.
- Chwarae gyda theganau addas e.e. blociau, jig-sos, Lego a dangos iddo/iddi sut i gymryd cyfrifoldeb am eu tacluso.

Mae'n bwysig cymryd amser i siarad, gwrando a chwarae.

**Gwybodaeth Gyffredinol**
Oriau Ysgol 08.45 (gatiau yn cau am 9:00) – 15:00
Amser Cinio 11:30-12:30

Amser chwarae bore – darparwch fyrbryd iach (ffrwythau / llysiau / iogwrt/caws) a photel o ddŵr bob dydd os gwelwch yn dda gydag enw eich plentyn wedi'u labelu yn glir.

Darperir pryd o fwyd canol dydd yn yr ysgol. Pris pob pryd yw £2.85 y dydd (£14.25 yr wythnos) tan y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed (ar ol hyn mae'n rhad ac am ddim . Rydym yn ysgol arlwyo di-arian parod felly mae'n rhaid i bob taliad gael ei wneud ar-lein drwy'r system a ddarperir gan Gyngor RhCT (rctcbc- Arian cinio ysgol- gwneud taliad. Bydd angen cod unigryw arnoch chi, byddwn yn rhannu hyn gyda chi yn ystod yr hanner tymor cyntaf). Mae gan rieni gyfle i wneud cais am brydau ysgol am ddim – mae ffurflenni cais ar gael gan yr Awdurdod. Cyfrifoldeb y rhiant yw anfon y ffurflenni wedi'u cwblhau i'r Swyddfa Addysg. Ni fydd plant yn cael prydau bwyd am ddim oni bai bod yr Awdurdod wedi hysbysu'r ysgol. Os oes diet arbennig gan eich plentyn neu os oes ganddynt unrhyw alergeddau bydd angen i chi hysbysu RhCT cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol os hoffech iddynt gael cinio ysgol ( RhCT- Gofynion dietegol sydd wedi'u rhagnodi'n feddygol).
Os yw'ch trefniadau diwedd y dydd yn newid a wnewch chi roi gwybod i'r swyddfa neu anfon llythyr mewn gyda'ch plentyn os gwelwch yn dda. Ni allwn adael i blentyn i fynd adref gyda rhywun arall heb ganiatâd y rhiant o flaen llaw. A wnewch chi drio cadw at yr un trefniadau yn wythnosol os gwelwch yn dda oni bai bod argyfwng yn codi.

## Clwb Brecwast

Cynigir clwb brecwast am ddim yn neuadd yr ysgol sy'n dechrau am 8:15. Mynediad olaf i'r Clwb Brecwast yw 8:30 yn brydlon. Mae ffurflenni ar gael yn yr ysgol i archebu lle.

## Cinio Ysgol

Rydym yn annog y plant i fwyta cinio ysgol drwy ein Polisi Bwyta'n Iach. Mae hyn hefyd yn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol e.e. sut i ddefnyddio cyllell a fforc. Os hoffech i'ch plentyn gael brechdanau ar rai dyddiau, sicrhewch eich bod yn cadw at yr un drefn wythnosol a bod y pecyn bwyd yn iach a maint priodol (digon iddynt deimlo'n llawn ond nid gormod fel eu bod yn rhuthro neu gael gormod o fyrbrydau melys).

## Gwisg Ysgol

Rydym yn falch iawn o'n gwisg ysgol ac felly rydym yn annog plant i wisgo gwisg ysgol bob amser:
Trowsus/ Sgert / Slip- llwyd
Crysau / Blows / Crys polo - gwyn
Siwmper/ Cardigan - gwyrdd
Tei - coch
Sanau - llwyd neu wyn
Esgidiau du (dim sandalau)
Haf – ffrog haf gwyrdd, siorts llwyd

**Rhowch enwau ar bob eitem o ddillad a phob eiddo os gwelwch yn dda**. Mae'r inc yn tueddu i olchi i ffwrdd a bydd angen i chi ail-ysgrifennu'r enw weithiau. A wnewch chi hefyd anfon bag i mewn gyda'ch plentyn i gario eu poteli dŵr ac i ddod â'u heiddo adref os gwelwch yn dda. Gofynnwn yn garedig hefyd iddynt gario newid llawn o ddillad sbâr yn eu bagiau gan gynnwys sanau a dillad isaf.

Rhaid i bob plentyn wisgo dillad addas i'r ysgol gan ein bod ni'n gwneud defnydd llawn o'n hamgylchedd ac yn cynnig llawer o brofiadau ymarferol. Mae'r plant yn mwynhau, yn cofio ac yn dysgu mwy wrth weithio'n ymarferol. Gobeithio eich bod yn gwerthfawrogi y gall fod adegau pan fydd dillad y plant yn mynd yn frwnt!

Anfonwch eich plentyn i'r ysgol yn gwisgo'n briodol ar gyfer y tywydd. Byddwn ni tu allan ym mhob tywydd - glaw, eira, gwynt a haul.

**Addysg Gorfforol**
Ar ddiwrnodau Addysg Gorfforol gofynnwn i'r plant wisgo siorts/ tracwisg/legins du a chrys-T gwyn.

**Gemwaith/Teganau**
Nid ydym yn caniatáu gwisgo gemwaith yn yr ysgol gan y gall gael ei ddal neu ei golli. Ni ddylai plant ddod ag unrhyw deganau i'r Meithrin oherwydd gallant fynd ar goll neu dorri yn hawdd ac rydym yn dysgu'r plant i rannu holl deganau yn yr ysgol.

**Meddyginiaeth**
Os oes gan eich plentyn anghenion meddygol penodol, sicrhewch fod yr ysgol yn ymwybodol. Os gellir rhoi meddyginiaeth gartref, yna mae'n well gwneud hyn, fodd bynnag, os oes ei angen o fewn oriau ysgol rhaid i rieni lenwi 'Ffurflen Caniatâd Meddyginiaeth' (sydd ar gael o'r swyddfa).

**Blasu/ Coginio Bwyd**
Fel rhan o'n cwricwlwm eang, bydd eich plentyn yn cael llawer o gyfleoedd i goginio a blasu bwydydd drwy gydol y flwyddyn. Os oes gennych unrhyw bryderon am hyn, trafodwch gyda'r staff cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol.

**Absenoldeb**
Rhaid adrodd absenoldeb i'r ysgol drwy adael neges ar beiriant ateb yr ysgol (erbyn 9:30am ar y diwrnod cyntaf). Os yw'ch plentyn wedi bod yn sâl, rhaid iddynt aros gartref am 48 awr cyn dychwelyd i'r ysgol.

**Dydd Gwener Ffrwythau**
Mae'r ysgol yn gwerthu ffrwythau / byrbrydau iach bob dydd Gwener am 50c yr eitem. Os hoffech i'ch plentyn brynu ffrwythau ar ddydd Gwener, gofynnwn yn garedig yn y Meithrin i'r arian cael ei anfon i mewn ar ddechrau pob tymor (byddwch yn derbyn neges gyda'r gost).

**Cyswllt Cartref ac Ysgol**
Mae'r cyswllt rhwng yr ysgol a'r cartref yn bwysig iawn. Y ffordd orau o helpu'ch plentyn yw eu hannog a chanmol eu hymdrechion. Os oes gennych unrhyw bryderon am eich plentyn, rydym bob amser yn eich annog i gysylltu â'r ysgol dros y ffôn a gwneud apwyntiad i siarad â ni. Defnyddir ein tudalen 'Seesaw' i ddathlu taith ddysgu eich plentyn yn yr ysgol gyda chi ac rydym yn annog rhieni i wirio'n tudalen yn rheolaidd unwaith y byddwch wedi cael y manylion mewngofnodi. Rydym hefyd yn rhannu tasgau a negeseuon cartref ar Seesaw bryd i'w gilydd, ond gofynnwn i chi beidio cysylltu ag athrawon ar Seesaw ac yn hytrach cysylltu trwy swyddfa'r ysgol. Trefnir nosweithiau rhieni drwy gydol y flwyddyn i drafod cynnydd eich plentyn.

## Gweithgareddau Ychwanegol

Yn ystod y flwyddyn gwahoddir rhieni i'r ysgol ar achlysuron arbennig e.e. cyngerdd Nadolig, Mabolgampau, cyngherddau dathlu.

Bob hanner tymor bydd 'thema/pwnc' newydd gyda ni ac mae ein dysgu yn gysylltiedig â'r 'thema' hon. Rydym wrth ein bodd yn clywed eich syniadau ar gyfer ein thema trwy ein tasgau cartref 'Llais y disgybl' . Ein nod yw darparu cyfleoedd cyfoethog rheolaidd i'r plant a gall hyn olygu ein bod yn mynd allan i'r gymuned e.e. siopau, llyfrgell, parc neu weithiau gall aelodau o'r gymuned ymweld â'r ysgol e.e. diffoddwyr tân, plismyn neu gwmnïau theatr. Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych os oes gennych unrhyw gysylltiadau â'r themâu, er enghraifft os gallwch chi neu aelod o'r teulu/ffrind ddod i mewn i siarad â'r plant am y thema neu os oes gennych unrhyw adnoddau ar gyfer ein hardaloedd chwarae rôl. Rydym bob amser yn ddiolchgar iawn am gyfranogiad rhieni – mae hefyd yn cysylltu'r dysgu â'r byd go iawn i'r plant!

## Y Chwe Maes Dysgu

Mae'r Cwricwlwm i'r Meithrin yn cydnabod bod pob plentyn yn unigryw ac yn cefnogi datblygiad cyfannol drwy gadw anghenion datblygiadol y plentyn ar flaen ein hymarfer addysgeg. Mae ein cwricwlwm yn cysylltu'n agos ag egwyddorion datblygiad plant, yn ogystal ag at bedwar diben y cwricwlwm a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y chwe maes dysgu a phrofiad:

- Celfyddydau Mynegiannol
- Dyniaethau
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Lles
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd

Drwy brofiadau arloesol a chyffrous mewn amgylcheddau effeithiol , mae ein staff medrus yn cynllunio gan ddefnyddio elfennau gorfodol Cwricwlwm i Gymru a chanolbwyntio ar anghenion y plentyn sy'n datblygu drwy'r pum llwybr datblygu:

- perthyn
- cyfathrebu
- archwilio
- datblygiad corfforol
- lles

**Cyn i'ch plentyn ddechrau ysgrifennu, mae angen iddynt;**

Datblygu cyhyrau cryf yn y llaw, braich, ysgwydd a chraidd
Mwynhau defnyddio pensil a gallu ei ddefnyddio'n gywir gyda llaw ffafriol
Sylwi ar wahaniaethau bach mewn lluniau tebyg (gan fod llythrennau yn gallu bod yn debyg iawn- p,b,d)
Dilyn llinell gyda'u bysedd
Llinellau trosysgrifo (yn syth ac yn grwm)
Cael llawer o brofiadau a mwynhau creu marciau

**Cyn i'ch plentyn ddechrau darllen mae angen iddynt wneud y canlynol:**

Mwynhau gwrando ar straeon
Trin llyfrau'n gywir
Siarad am luniau
Sylwi ar fanylion a gwahaniaethau
Dod o hyd i ddau lun yr un fath
Gwybod bod ystyr i brint
Sylwi ar eiriau o'u cwmpas nid yn unig mewn llyfrau
Gwybod bod stori yn cael ei darllen o'r chwith i'r dde ac o'r top i'r gwaelod
Gallu copïo a dilyn dilyniant
Adnabod y rhan fwyaf o synau a blendio synau gyda'i gilydd

Mae pob plentyn yn datblygu ar ei amser ei hun. Rydym yn gofyn i chi gefnogi eich plentyn ond i beidio â rhoi pwysau arnynt i ddarllen neu ysgrifennu cyn ei fod yn barod. Rydym yn dilyn y rhaglen ffoneg 'Tric a chlic' yn yr ysgol a phan fydd y plant yn barod rydym yn anfon llythrennau, geiriau, gemau a llyfrau adref iddynt eu hymarfer.

**Tu mewn:**




Ardal Greadigol – crefft, cerddoriaeth, paentio
Cornel Darllen
Ardal Fathemateg – cyfrif, jig-so, mesur, didoli
Ardal Iaith – gwneud marciau, llythrennau
Adeiladu/ rhannau rhydd
Chwarae Rôl – seiliedig ar thema
Ardal Ymchwilio



**Tu allan:**

Chwarae Corfforol – beiciau, dringo, taflu, adeiladu
Dŵr
Tywod
Ardal Ymchwilio

Mae gennym hefyd ysgol goedwig, cylch coed, tân ac rydym yn archwilio'r ardd wyllt. Mae'r ysgol yn darparu dillad gwrth-ddŵr ond gofynnwn i chi anfon pâr o welis i'r ysgol pan fydd angen (byddwn yn rhoi gwybod i chi ar ba ddiwrnodau).

**Pwysigrwydd dysgu yn yr awyr agored**

Mae ymchwil yn dangos bod plant sydd wedi cael profiadau dysgu awyr agored o ansawdd da yn dechrau'r ysgol gyda sgiliau cymdeithasol cryf; yn gallu gweithio mewn grwpiau'n effeithiol; maent yn dangos lefel uwch o hunan-barch ac annibyniaeth ac maent hefyd yn fwy hyderus yn eu galluoedd eu hunain.

Mae'r defnydd o'r awyr agored yn cael effaith mawr ar les, hyder, sgiliau corfforol a sgiliau mynegiannol plant. Yr awyr agored yw'r amgylchedd dysgu a ffafrir gan y mwyafrif uchel o blant ac rydym yn ffodus iawn i gael ardal awyr agored gwych yn ein hysgol! Cofiwch y bydd yr ystafell ddosbarth awyr agored yn cael ei defnyddio ym mhob tywydd!

## Ein diwrnod ysgol

Mae 2 ddosbarth yn y Meithrin (Fflic a Fflac) ond byddant yn gweithio fel 1 uned. Mae plant yn cyrraedd yr ysgol ac yn cael eu cofrestru yn eu dosbarth. Unwaith y byddant wedi'u cofrestru ac ar ôl y sgwrs fore bydd y ddau ddosbarth yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gyda'i gilydd trwy gydol y dydd. Rydym yn cael amser byrbryd yn y bore lle mae plant yn bwyta eu ffrwythau o adref ac yna 'amser llaeth' yn y prynhawn. Rydym yn darparu amrywiaeth o weithgareddau i'r plant yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored. Mae'r plant yn gweithio mewn grwpiau, gydag oedolyn, mewn parau neu'n unigol gydag amrywiaeth o chwarae rhydd, chwarae dan arweiniad a chwarae wedi'i gynllunio.

- Chwarae rhydd yw pan fydd plant yn cael y rheolaeth a dim ond eu diddordebau a'u cymhellion sy'n cyfarwyddo chwarae. Maent yn rhydd i ddewis beth i chwarae gyda, sut i chwarae a gyda phwy (os unrhyw un) i chwarae gyda nhw heb ymyrraeth oedolyn. Bydd ymarferwyr yn arsylwi ar y chwarae yn fedrus ac yn myfyrio ar y camau nesaf o ddysgu.
- Mae chwarae dan arweiniad yn chwarae sy'n canolbwyntio ar y plentyn gyda chydweithredu rhwng yr ymarferwyr a phlant. Mae'r ymarferydd yn cynllunio'r amgylchedd dysgu a'r adnoddau i ennyn diddordeb plant. Mae'r oedolyn yn dilyn arweiniad y plentyn.
- Dysgu sy'n seiliedig ar chwarae yw pan fydd yr ymarferydd yn cynllunio ar gyfer profiadau sy'n seiliedig ar chwarae gyda bwriadau dysgu - gallai hyn gynnwys ffocws llythrennedd a rhifedd.



## Cymraeg

Y Gymraeg yw iaith ein hysgol a'n nod yw datblygu rhuglder drwy fodelu a darparu gweithgareddau cyfoethog yn y Gymraeg i'r plant. Yn ystod y tymor cyntaf pan fo'r plant yn ymgartrefu rydym yn cyflwyno'r ieithoedd fel brechdan i sicrhau dealltwriaeth (Cymraeg-Saesneg-Cymraeg). Ar ôl y Nadolig rydym yn trochi'r Gymraeg gan fod hyn wedi cael ei brofi i fod y ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu rhuglder. Wrth gwrs mewn adegau pa mae dealltwriaeth lawn yn hanfodol (e.e. pan fyddant wedi cael damwain neu'n ofidus) byddwn yn defnyddio'r Saesneg os bydd angen . Mae'r plant fel sbwng! Mae'n anhygoel gweld eu datblygiad yn ystod blwyddyn y Meithrin wrth i'w geirfa gynyddu trwy fodelu, chwarae, cân ac arferion dyddiol. Rydym yn dathlu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein gwasanaethau gyda 'Cymro/Cymro yr wythnos' ac mae'r plant yn gallu cymryd cymeriadau'r Siarter Iaith adref am y penwythnos sef 'Sbarc' a 'Seren' ! Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod o gartref Saesneg ei iaith, a gofynnwn i chi ein cefnogi gyda'r angerdd tuag at yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Rydych wedi gwneud dewis rhagorol - mae ymchwil yn dangos bod derbyn addysg ddwyieithog yn datblygu dysgu gwybyddol ac yn eu helpu i ddysgu pynciau eraill ar draws y cwricwlwm gan gynnwys Saesneg.

## <u>Gwefannau ac Apiau defnyddiol</u>

http://www.s4c.cymru/cyw/cy/

Tric a chlic

Dylai'r ddau ap weithio ar y mwyafrif o ddyfeisiau iOS sy'n fwy newydd na ~2018. Yn anffodus nid ydynt ar gael ar y Google Play Store ar hyn o bryd. Oherwydd hyn rydym wedi sicrhau bod yr apiau ar gael i unrhyw un sydd am eu defnyddio, hyd nes y gallwn eu cyhoeddi eto ar Android: https://pth.cymru/tac-dros-dro



Antur Cyw



Cywion bach geiriau cyntaf



Byd Cyw



Llyfrau hwyl Magi Ann



Dewin a Doti



Ar y fferm (apple yn unig)



Betsan a Roco yn y pentref (apple yn unig)

## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Gwahoddir rhieni i ymuno â'r Gymdeithas, sy'n rhoi cefnogaeth werthfawr i'r ysgol. Cynhelir cyfarfodydd CRhA yn yr ysgol yn rheolaidd. Trefnir nifer o weithgareddau eraill gan y rhieni bob blwyddyn e.e. Ffair Haf a Nadolig, nosweithiau Cymdeithasol ac ati. Trwy'r gweithgareddau hyn mae'r gymdeithas wedi casglu miloedd o bunnoedd a gyda hyn rydym wedi prynu offer ar gyfer yr ysgol. Dewch i gyfarfod CRhA fel y gallwn gynnal perthynas agos fel Rhieni ac Athrawon. Mae'r CRhA yn rhedeg tudalen Facebook y gallwch ymuno â hi i'w chefnogi.

Rydym yn siŵr y bydd eich plentyn yn mwynhau ei amser gyda ni yma yn Ysgol Gymraeg Aberdâr. Mae ein prosbectws ysgol ar ein gwefan ysgol. Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach. Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu i gymuned yr ysgol ac i weithio gyda chi er lles eich plentyn.

YGG ABERDÂR

**'Cyd Dynnu Gwir Lwyddiant'**